



Y RHWYDWAITH YMCHWIL
IECHYD MEWN YSGOLION

SCHOOL HEALTH
RESEARCH NETWORK

Arferion ysgol sy'n bwysig i iechyd rhywiol pobl ifanc

Brîff Ymchwil Iechyd a Lles Ysgolion, Chwefror 2018

Gall ysgolion ddylanwadu'n fawr ar iechyd a lles rhywiol pobl ifanc, trwy gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh) yn y cwricwlwm ffurfiol a thrwy agweddau eraill o amgylchedd yr ysgol, fel cynnig clinigau iechyd rhywiol. Beth yw'r berthynas rhwng yr agweddau hyn ar arferion hybu iechyd rhywiol mewn ysgolion yng Nghymru ac iechyd rhywiol pobl ifanc?

Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod...

Mae llencyndod yn gyfnod hollbwysig ar gyfer sefydlu normau ynghylch gweithgarwch rhywiol ac, yn y DU, ac mae nifer o bobl ifanc yn gadael addysg orfodol eisoes wedi cael cyfathrach rywiol a chymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol mentrus.

Mae ARhPh yn gysylltiedig ag annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio dulliau atal cenhedlu a gostwng lefelau beichiogrwydd, erthylu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Mae gwneud dulliau atal cenhedlu ar gael yn ehangach yn ffactor allweddol wrth wella canlyniadau iechyd rhywiol ac mae darparu dulliau atal cenhedlu ar dir yr ysgol yn cael ei argymhell yn y DU.



Yr hyn a wnaethom...

- Defnyddiwyd data 3,781 o fyfyrwyr 15 a 16 oed a gymerodd ran yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Cymru 2015/16.
- Dywedodd myfyrwyr p'un a oeddent wedi cael cyfathrach rywiol.
- Gofynnwyd i'r rhai a atebodd 'do' am eu hoedran pan gawson nhw ryw am y tro cyntaf ac a ddefnyddiwyd condom y tro diwethaf iddynt gael rhyw.
- Casglwyd gwybodaeth am amgylchedd iechyd rhywiol gan y 59 ysgol roedd y myfyrwyr yn eu mynychu.
- Darparodd yr ysgolion wybodaeth am bwy oedd â'r prif gyfrifoldeb dros gyflwyno ARhPh, p'un a oedd gan yr ysgol wasanaeth galw heibio yn yr ysgol yn benodol ar gyfer iechyd rhywiol, a ph'un a oedd yr ysgol yn darparu condomau am ddim ar y safle.

Yn gryno

- Roedd 24.9% o fyfyrwyr ym mlwyddyn 11 wedi cael rhyw, ond ni ddefnyddiodd dros hanner ohonynt gondom y tro diwethaf iddynt gael rhyw.
- Roedd ARhPh wedi'i chyflwyno gan athrawon ARhPh/addysg iechyd arbenigol, nyrsys ysgol ac asiantaethau allanol yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd rhywiol cadarnhaol.
- Roedd darparu gwasanaeth iechyd rhywiol ar y safle yn gysylltiedig â defnyddio condomau yn fwy aml, ond roedd darparu condomau am ddim yn gysylltiedig â'u defnyddio nhw'n llai aml.
- Nid oedd gwasanaethau iechyd rhywiol a darparu condomau am ddim ar y safle yn gysylltiedig â phobl ifanc yn dechrau cael rhyw.



@SHRNWales



SHRN@caerdydd.ac.uk



SHRN.org.uk

Yr hyn a ganfuom...

Ymddygiad rhywiol

- Roedd **24.9%** o fyfyrwyr ym mlwyddyn 11 wedi cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol ac ni ddefnyddiodd **56.8%** o'r rhain gondom y tro diwethaf iddynt gael rhyw.

Cyflwyno ARhPh

- Roedd cysylltiad cryf rhwng pwy sy'n darparu ARhPh mewn ysgolion a ph'un a oedd myfyrwyr wedi dweud eu bod wedi cael rhyw, ac os athrawon nad ydynt yn arbenigwyr oedd yn cyflwyno, roedd mwy o fyfyrwyr wedi cael rhyw. Yn benodol, roedd cael ARhPh gan **nyrs ysgol** neu **athro/athrawes addysg iechyd** yn gysylltiedig â thebygolrwydd llai bod myfyrwyr yn cael rhyw.
- Roedd cysylltiad cadarnhaol rhwng nyrsys ysgol yn cyflwyno'r ARhPh a chael rhyw am y tro cyntaf yn hwyrach.
- Hefyd, roedd cyflwyno ARhPh yn gysylltiedig â defnyddio condomau, gyda myfyrwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio condomau os oedd yr ARhPh wedi'i chyflwyno gan nyrsys ysgol neu gan asiantaethau allanol.

Darparu gwasanaeth iechyd rhywiol ar y safle

- Nid oedd mynediad at wasanaeth iechyd rhywiol ar y safle yn gysylltiedig â phobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael rhyw na'r oedran yr oeddent wedi cael rhyw am y tro cyntaf.
- Roedd gwasanaeth iechyd rhywiol ar y safle yn golygu bod cynnydd o **46%** yn y tebygolrwydd o ddefnyddio condomau.

Darparu condomau rhad ac am ddim ar y safle

- Nid oedd cysylltiad rhwng darparu condomau ar y safle a phrofiad o gyfathrach rywiol.
- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion sy'n darparu condomau yn fwy tebygol o gael rhyw am y tro cyntaf yn hŷn, ond yn llai tebygol o ddefnyddio condom y tro diwethaf iddyn nhw gael rhyw.



Materion i'w hystyried

Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys nifer uchel o fyfyrwyr o ysgolion sy'n cynrychioli ysgolion uwchradd yng Nghymru gyfan.

Roedd hawl gan yr holl fyfyrwyr ddweud 'Nid wyf i eisiau ateb' fel ateb i'r cwestiynau am iechyd rhywiol yn yr arolwg, ac ni chafodd yr unigolion hyn eu cynnwys yn yr astudiaeth.

Ni chasglwyd gwybodaeth ar gynnwys yr ARhPh a faint o amser a dreuliwyd arno.

Casglwyd yr holl ddata ar yr un adeg (arolwg trawstoriadol) felly ni allwn ddweud yn sicr bod arferion yr ysgol ynghylch iechyd rhywiol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y canlyniadau iechyd rhywiol a gasglwyd.

Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- Gall y bobl sy'n cyflwyno'r ARhPh yn eich ysgol fod yn bwysig i ganlyniadau iechyd rhywiol y myfyrwyr.
- Gwelodd y gwaith ymchwil hwn fod ARhPh wedi'i chyflwyno gan athrawon ARhPh/addysg iechyd arbenigol, nyrsys ysgol ac asiantaethau allanol yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd rhywiol cadarnhaol.
- Nid oedd modd i ni brofi sut roedd canlyniadau'r myfyrwyr yn amrywio rhwng athrawon sy'n derbyn gwahanol lefelau cymorth. Mae'n debygol fod rhai athrawon yn cyflwyno ARhPh mewn ffordd lwyddiannus iawn, ond mae hyn yn amrywio yn ôl ffactorau fel faint o gymorth a hyfforddiant maent yn ei dderbyn i gyflwyno'r ARhPh.
- Mae darparu clinigau iechyd rhywiol a chondomau am ddim yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd rhywiol cadarnhaol i bobl ifanc, ac nid yw'n gysylltiedig â dechrau cael rhyw yn ifancach.

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim yma:

<https://doi.org/10.1093/eurpub/ckx203>

Young H et al (2017) School practices important for students' sexual health: analysis of the school health research network survey in Wales. *European Journal of Public Health* DOI: 10.1093/eurpub/ckx203